Astudiaethau achos gwrth-hiliol: Jane: ymateb i geisiadau hiliol mewn gofal mamolaeth

Last Updated: 23/11/2026

Jane: ymateb i geisiadau hiliol mewn gofal mamolaeth

Setting: Gofal mamolaeth: ward esgor.

Cyd-destun

Mae Jane yn fydwraig Ddu sy'n gweithio ar y ward esgor yn ystod sifft prynhawn Sadwrn. Mae saith bydwraig ar ddyletswydd: mae pump yn Ddu a dwy yn Wyn. Mae un o'r bydwragedd Gwyn yn cydlynu'r sifft. Ar ôl dyrannu, mae Jane yn mynd i gymryd drosodd gofal menyw Gwyn sy'n esgor gyda'i hail fabi.

Beth ddigwyddodd

Mae Jane yn derbyn trosglwyddiad gan y fydwraig flaenorol, sydd hefyd yn Wyn. Mae hi'n cyflwyno ei hun i'r fenyw, yn egluro y bydd hi'n gofalu amdani y prynhawn hwnnw ac yn dweud ei bod hi'n edrych ymlaen at groesawu ei babi. Mae'r fenyw yn ymateb: "Helo, onid oes unrhyw fydwragedd Gwyn?" Mae Jane yn gofyn a fyddai'r fenyw yn well ganddi fydwraig Gwyn i ofalu amdani. Mae'r fenyw yn dweud "byddai" ac yn troi ar ei hochr, gan wynebu i ffwrdd o Jane. Mae Jane yn dod o hyd i'r fydwraig sy'n gyfrifol ac yn egluro'r sefyllfa.

Mae'r fydwraig sy'n gyfrifol yn gofyn i Jane a fyddai hi'n hapus i aros nes bod y fydwraig Gwyn arall yn gorffen yn y theatr. Mae Jane yn egluro ei bod yn amharod i wneud hynny oherwydd bod y fenyw yn esgor, mae angen iddi deimlo'n ddiogel gyda'r person sy'n darparu gofal, ac mae angen i Jane hefyd allu ymarfer mewn amgylchedd sy'n parchu ei hurddas.

Mae'r fydwraig sy'n gyfrifol yn cytuno i gyfnewid dyletswyddau gyda Jane nes bod y fydwraig Wen arall ar gael tuag awr yn ddiweddarach. Mae'r fenyw yn rhoi genedigaeth yn ddiweddarach ac mae'n hapus gyda'i gofal.

Effaith

Mae'r sefyllfa uniongyrchol yn cael ei rheoli mewn ffordd sy'n cynnal gofal i'r fenyw, ond ni chynigir unrhyw drafodaeth na chefnogaeth i Jane.

Nid yw'r digwyddiad wedi'i ddogfennu'n glir fel hiliaeth tuag at staff ac nid oes tystiolaeth o ddysgu sefydliadol.

Mae Jane yn cael ei gadael i gario effaith emosiynol y rhyngweithio wrth barhau i weithio'n broffesiynol.

Sut y dylai arfer gwrth-hiliol edrych

Ni ddylai gofal sy'n canolbwyntio ar y person olygu normaleiddio hiliaeth. Mewn sefyllfaoedd gofal brys neu bersonol, efallai y bydd angen i staff wneud penderfyniadau pragmatig i gynnal diogelwch, ond dylai sefydliadau gael prosesau clir ar gyfer ymateb i geisiadau hiliol, cefnogi staff yr effeithiwyd arnynt ac adolygu'r hyn a ddigwyddodd.

Pwyntiau dysgu allweddol

- Dylid cydnabod ac enwi ceisiadau hiliol gan gleifion neu deuluoedd, hyd yn oed lle mae anghenion gofal uniongyrchol yn gymhleth
- Rhaid cydbwyso gofal sy'n canolbwyntio ar y person ag urddas, diogelwch ac arfer gwrth-wahaniaethol staff
- Dylai rheolwyr gefnogi staff ar y pryd a chynnig sesiwn ôl-drafodaeth wedyn
- Dylid dogfennu ac adolygu digwyddiadau o hiliaeth tuag at staff
- Dylai sefydliadau ddarparu canllawiau clir ar gyfer ceisiadau cleifion neu deuluoedd yn seiliedig ar hil, ethnigrwydd, crefydd neu nodweddion gwarchodedig eraill
- Ni ddylai penderfyniadau tymor byr pragmatig ddod yn ddiwylliant o ddarparu ar gyfer gwahaniaethu
- Mae arfer gwrth-hiliol yn gofyn am ofal i'r person sy'n derbyn gofal a'r aelod staff yr effeithir arno gan hiliaeth